



## Ysgol Pentreuchaf

### 16. Polisi Asesu Ffurfiannol

(I'w ddefnyddio ochr yn ochr gyda'r **Polisi Asesu Crynodol**)

#### Nod

Gwneud asesu ar gyfer dysgu yn weithgaredd beunyddiol sy'n rhoi gwybodaeth i'w defnyddio fel adborth. Defnyddio'r wybodaeth gan athrawon, a gan eu disgyblion wrth asesu eu cyfoedion a'u hunain. Bydd yr asesiad yn un ffurfiannol os bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i hyrwyddo dysgu'r plentyn.

#### Amcanion

'Gwahaniaethu'n glir rhwng asesu ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu) at bwrpas cynllunio, dyfarnu graddau a llunio adroddiadau, sydd â threfn wedi'i hen sefydlu, ac asesu crynodol (asesiad o ddysgu) gan sicrhau bod cydbwysedd a chysylltiad addas rhwng y ddau.

Ymateb i'r gofyn am 'flaenoriaethau gwahanol, trefnau newydd ac ymrwymiad newydd' oherwydd Cwricwlwm 2008 (*'Manteisio i'r eithaf ar ddysgu'*: APADGOS 2008).

#### Canllawiau

1. Mae'r canllaw hwn yn cydymffurfio â gofynion yr adolygiad o'r Cwricwlwm 'Cenedlaethol' sydd i'w weithredu o'r newydd o fis Medi 2008 ymlaen.

2. Parhau i dracio cynnydd pob disgybl ym mhob pwnc yn rheolaidd, ond bellach gwneud hynny drwy ymddiried ym marn broffesiynol yr athrawon. Mae dwy egwyddor sylfaenol yn y dull a ddefnyddir ar gyfer asesu a chadw cofnodion.

i) Yn gyntaf, yn unol â chyfarwyddyd Estyn (Rhagfyr 1993) ni fyddwn yn cadw tystiolaeth fanwl i gefnogi'r asesiad. Bydd llawer o wybodaeth ar gael mewn llyfrau amrywiol, ar fur y dosbarth, mewn ffotograffau ac mewn gwaith llafar a chorfforol diflanedig.

ii) Yn ail, bydd y pwyslais ar 'Asesu ar Gyfer Dysgu' yn unol â pholisi'r AALL. Y wedd bwysicaf ar asesu yw'r wedd **ffurfiannol** sy'n dangos i blentyn sut y gall wella ei waith. Fel arfer, mae hwnnw'n digwydd fel rhan o addysgu dydd-i-ddydd ac yn bwydo ymlaen i waith cynllunio. Mae'n bwysig dadansoddi'r asesiadau a nodi'r camau nesaf ar gyfer symud unigolion, grwpiau neu ddsbarth cyfan ymlaen

#### Egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu yn y Dosbarth:

1. Rhannu deilliannau dysgu a meini prawf ar gyfer dysgu llwyddiannus gyda'r disgyblion.

2 Sicrhau **deialog dosbarth** ystyrion er mwyn cael mewnwelediad i'r dysgu.

3. Sicrhau **adborth** prydlon o ansawdd sy'n adnabod lle mae'r plentyn yn y dysgu, ble mae angen iddynt fynd nesaf a'r ffordd orau i gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion yn rhoi adborth ar waith ei gilydd a'u hunain ac mae angen datblygu sgiliau disgyblion i adnabod a defnyddio meini prawf llwyddiant i **hunan asesu ac asesu eu cyfoedion** er mwyn eu datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

#### Rhannu Deilliannau Dysgu a Meini Prawf Llwyddiant

Strategaethau ar gyfer annog disgyblion i chwarae rhan a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu:

## **Deilliannau Dysgu –**

- i) Deall . . . .
- ii) Gwybod sut i . . . .
- iii) Gallu . . . . .

1. Gofalu bod deilliannau dysgu'r dasg yn ddealladwy ac yn ddiamwys i ddysgwyr – dyma beth fydd yn cael ei ddysgu.
2. Lle'n addas, dweud wrthynt pam eu bod am ddysgu hyn – sut mae'n rhan o'r darlun llawn.

## **Meini Prawf Llwyddiant**

1. Gofalu bod y meini prawf llwyddiant yn glir i ddysgwyr ac yn rhoi gwybodaeth iddynt ar 'sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi llwyddo' – dyma beth sy'n cael ei wneud.
2. Gan fod ansawdd y gwaith yn bwysig wrth drafod meini prawf llwyddiant, mae angen modelu hyn gydag enghreifftiau, cwestiynau, trafodaeth ac adborth.
3. Ble'n bosib, dylid gwahodd y disgyblion i lunio eu meini prawf llwyddiant eu hunain drwy gysylltu'r amcanion dysgu â chyfarwyddiadau'r dasg.
4. Mae angen arddangos yr amcanion dysgu a'r meini prawf llwyddiant a chyfeirio atynt yn gyson yn ystod y wers.

## **Datblygu Deialog Dosbarth**

“Dylai'r ddeialog rhwng disgyblion ac athro fod yn feddylgar, yn adfyfyriol, yn benodol er mwyn ysgogi ac archwilio dealltwriaeth, a'i chynnal mewn modd sy'n rhoi cyfle i bob disgybl feddwl a mynegi'i syniadau.” (Inside the Black Box”, Paul Black a Dylan Williams)

## **Strategaethau ar gyfer cynnal deialog dosbarth:**

1. Sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion drafod eu syniadau ag eraill er mwyn dangos, ymestyn a phrofi eu dealltwriaeth e.e. drwy ddefnyddio partneriaid trafod.
2. Creu awyrgylch dysgu sy'n gweld camgymeriadau/camddealltwriaeth fel rhan annatod o ddysgu.
3. Paratoi a chynllunio cwestiynau a fydd yn amlygu dealltwriaeth disgyblion, gwneud iddynt feddwl yn hytrach na chofio yn unig a symud y dysgu ymlaen e.e. drwy gydweithio i greu casgliad o gwestiynau cyfoethog.
4. Caniatáu digon o amser i ddisgyblion feddwl e.e. drwy roi'r cyfle i ddisgyblion drafod eu syniadau mewn parau neu grwpiau bach yn gyntaf.
5. Gwrando ar ymateb disgyblion a sicrhau ymyrraeth addas er mwyn datrys camsyniadau a symud y dysgu yn ei flaen.
- 6, Annog disgyblion i ofyn eu cwestiynau eu hunain a datblygu meddwl chwilfrydig.

## **Marcio ac Adborth**

Nid yw'n bosib marcio pob darn o waith yn drylwyr. Yn y cyd-destun hwn, mae “llai yn fwy” ac mae angen dewis a chynllunio'n ofalus y gwaith sydd i'w asesu'n safonol.

## **Egwyddorion Adborth:**

1. Mae'r ymennydd yn penderfynu beth i'w wneud nesaf yn ôl beth sydd wedi digwydd ynghynt, felly mae'n bwysig bod adborth yn brydlon, yn benodol ac yn nodi'r camau nesaf i symud y dysgu ymlaen.
2. Mae adborth **ar lafar** yn ffordd effeithiol o ymateb i waith disgyblion drwy ystyried eu cyrhaeddiad yn erbyn y meini prawf llwyddiant a osodir, a chynnig camau nesaf.

3. Wrth roi adborth **ysgrifenedig** dylai'r sylwadau fod yn seiliedig ar y meini prawf llwyddiant hefyd. Rhaid hefyd ystyried ansawdd y sylwadau a sut maent yn helpu disgyblion i symud ymlaen.
4. Gwyddom fod rhoi marc a gradd ymdrech ar waith yn tynnu sylw'r dysgwyr oddi ar y sylwadau a'r camau nesaf felly mae'n rhaid ystyried pryd ac a oes angen rhoi marciau.
5. Er mwyn i adborth fod yn effeithiol mae angen sicrhau bod amser i ddisgyblion feddwl am y sylwadau ac ymateb i'r sylwadau a nodir e.e. neilltuo ychydig o funudau ar ddechrau gwers wrth ddychwelyd at waith ysgrifenedig wedi'i asesu.

**\* Gweler y Polisi ymateb i Waith Plant am fanylion llawn**

**Datblygu Asesu Cyfoedion a Hunan Asesu**

**Mae hunan asesu yn sgil arbennig sydd angen ei haddysgu a'i datblygu dros amser. Gall asesu cyfoedion fod yn ddull o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i hunan asesu yn effeithiol.**

Mae annog disgyblion i asesu eu dealltwriaeth eu hunain ac adnabod llwyddiannau yn dylanwadu'n gadarnhaol ar hunan hyder, hunan ddelwedd a chymhelliant a chynnydd disgyblion. Mae'r cydbwysedd yn anghywir os mai'r athro/awes yn unig sy'n rhoi adborth, a bydd disgyblion yn colli unrhyw ran sydd ganddynt yn eu haddysg. Wrth ddatblygu sgiliau disgyblion i asesu eu cyfoedion ac i hunan asesu bydd rôl yr athro/awes yn newid o fod yn farciwr llawn amser i un sy'n ymyrryd yn effeithiol, gan wneud sylwadau am ymdrechion disgyblion a chwarae rhan wrth iddynt wneud eu penderfyniadau eu hunain.

**Er mwyn hyfforddi disgyblion i asesu cyfoedion ac i asesu'u hunain yn fwy effeithiol dylid:**

1. Trafod yr amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn ystod y wers a chael disgyblion i ddechrau adnabod eu llwyddiannau eu hunain yn erbyn yr amcan dysgu a meini prawf llwyddiant.
2. Gofyn i ddisgyblion, unwaith y bydd yr arferiad hwn wedi gwreiddio, i adnabod un rhan o'u gwaith y gellir ei gwella e.e. drwy danlinellu neu roi cylch o amgylch y rhan hon, yn barod i'r athro ysgrifennu awgrym ar sut i'w gwella.
3. Gofyn wedyn i'r disgyblion feddwl sut y gallant wneud y gwelliant hwnnw. Daw'r arweiniad i wneud hyn wrth i athrawon ddarparu adborth adeiladol.
4. Mae technegau ac offerynnau ar gyfer hunan asesu yn cynnwys:
  - \*deialog rhwng athro a disgybl;
  - \*plant yn cadw eu cofnodion eu hunain e.e. cofnod ddarllen
  - \*deialog ysgrifenedig syml rhwng athro a disgybl;
  - \*defnyddio sbardun cychwynnol megis gorffen brawddegau "Y prosiect wnes ei fwynhau fwyaf oedd.....";
  - \*defnyddio brawddegau cyflawniad megis "Ar ddiwedd yr uned hon fe ddylech fedru ....";
  - \*holiaduron aml-ddewis.
5. Nid yr offeryn a ddefnyddir sydd bwysicaf, ond y drafodaeth y mae'n ei sbarduno rhwng plentyn ac athro/awes. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar sut y gellir gwella amodau dysgu ar gyfer y plentyn i'r dyfodol.
6. Yn achlysurol, rhennir holiaduron i'r plant fynegi barn (yn ddi-enw) ar wahanol agweddau o waith a gweithrediad yr ysgol, a chânt hefyd gyfleoedd i ddylanwadu ar wahanol agweddau trwy'r Cyngor Ysgol.
7. Mae plant bob amser yn barod iawn i drafod eu 'gwendidau' a sut y gallant wella, ac rydym wedi dysgu dros y blynyddoedd fod rhoi rhan weithredol iddynt wrth osod targedau personol yn llawer mwy tebygol o arwain at lwyddiant yn y pen draw. O'r herwydd, rydym yn trafod a negydu

targedau tymhorol gydag unigolion cyn nosweithiau rhieni.

### **Y Plentyn Cyfan**

Credir ei bod yn bwysig rhoi cyfle i'r plant drafod y sgiliau, galluoedd, nodweddion a phrofiadau a amlygir yn yr ysgol a'r tu hwnt i'r cwrs addysg.

### **Swyddogaeth y Cydlynnydd Asesu (Gethin Elis Thomas)**

Y cydlynnydd asesu, sef y pennaeth sy'n gyfrifol am y canllaw hwn. Y cydlynnydd hefyd sy'n gyfrifol am ddarllen y dogfennau perthnasol i'r gyfundrefn asesu ac am sicrhau bod staff yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol y CC. Bydd yn mynychu cyrsiau perthnasol ac yn adrodd yn ôl i'r staff mewn cyfarfodydd HMS ysgol-ganolog.

### **Cyfrifoldebau Cydlynnydd Asesu'r Ysgol:**

1. Bod yn ddolen gyswllt rhwng aelodau'r staff.
2. Cynnig cynhaliaeth a chynghor proffesiynol mewn perthynas ag asesiadau'r CC.
3. Rhannu arferion effeithiol rhwng athrawon.
4. Cyfrannu at arfarnu effeithiolrwydd y cylch asesu ym mhob dosbarth.
5. Ymgynghori ag athrawon pan fo gwahaniaethau rhwng asesiadau athrawon ac unrhyw brofion.
6. Cynnal treialon cytuno / sesiynau safoni o fewn yr ysgol.
7. Casglu enghreifftiau o waith plant ar y gwahanol lefelau yn yr ysgol.
8. Samplo a chadw golwg ar gynnydd y plant mwyaf galluog.
9. Mynychu cyfarfodydd hyfforddiant amrywiol.
10. Adolygu canllaw asesu'r ysgol a sicrhau ei fod yn adlewyrchu y newidiadau cyfamserol yn y cwrs addysg, yn ogystal ag adlewyrchu yr hyn sy'n digwydd o fewn y dosbarthiadau.

### **Casgliad**

Rhaid defnyddio'r drefn asesu'n ofalus er mwyn i'r disgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, aeddfed. Trwy eu harwain i edrych yn wrthrychol a sensitif ar eu gwaith eu hunain ac eraill byddant yn datblygu sgiliau dysgu gydol oes ac yn tyfu'n awyddus i lwyddo heb fod ofn methu.

### **Adolygir: Ionawr 2017**

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_